# Adroddiad Arholwyr Lefel 2

Iechyd a Gofal Cymdeithasol: Egwyddorion a Chyd-destunau

Lefel 2

Ionawr 2025

© WJEC CBAC Ltd.



**Cyflwyniad**

Mae adroddiad yr Uwch Arholwyr yn rhoi adborth gwerthfawr ar y gyfres asesu ddiweddar. Yr Uwch Arholwyr a'r Uwch Gymedrolwyr sy'n ysgrifennu'r ddogfen hon ar ôl cwblhau'r marcio a'r cymedroli, ac mae'n cynnwys manylion ynghylch perfformiad ymgeiswyr ym mhob uned.

Mae'r adroddiad hwn yn dechrau â chrynodeb o berfformiad ymgeiswyr, gan gynnwys yr amcanion asesu/sgiliau/testunau/themâu sy'n cael eu profi, ac yn tynnu sylw at nodweddion perfformiad llwyddiannus a lle gellid gwella perfformiad. Yna mae'n edrych ar bob uned yn fanwl, gan nodi agweddau oedd yn heriol i rai ymgeiswyr ac awgrymu rhesymau posibl dros hynny.[1]

Mae'r wybodaeth sydd i'w chael yn yr adroddiad hwn yn helpu ymarferwyr i feithrin dealltwriaeth werthfawr i gefnogi eu gweithgaredd addysgu a dysgu. Byddem hefyd yn annog ymarferwyr i rannu'r ddogfen hon – yn ei chyfanrwydd neu rannau ohoni – â'u dysgwyr i'w helpu i baratoi ar gyfer yr arholiadau, i ddeall sut i osgoi diffygion annisgwyl ac i ychwanegu at eu pecyn cymorth adolygu.

**Cefnogaeth bellach**

| Mapio | Disgrifiad | Cyswllt |
|---|---|---|
| Dysgu Proffesiynol / DPP | Mae CBAC yn cynnig rhaglen eang o ddigwyddiadau Dysgu Proffesiynol wyneb yn wyneb ac ar-lein. Cofrestrwch ar gyfer un o'n digwyddiadau yma i weld adborth rhyngweithiol, adolygu ymatebion enghreifftiol gan ymgeiswyr, cael syniadau ymarferol ar gyfer yr ystafell ddosbarth a gofyn cwestiynau i'n tîm ymroddedig. | https://www.cbac.co.uk/home/dysgu-proffesiynol/ |
| Cyn-bapurau | Manteisiwch ar y banc o gyn-bapurau ar gyfer y cymhwyster hwn, gan gynnwys yr asesiadau mwyaf diweddar. Noder na fydd y cyn-bapurau ar gael ar y wefan gyhoeddus hyd nes 12 mis ar ôl yr arholiad. | Porth CBAC neu ar dudalen pwnc CBAC |

[1] ***Noder: lle ystyriwyd bod perfformiad cyffredinol mewn cwestiwn/rhan o gwestiwn yn dda, heb unrhyw feysydd penodol i dynnu sylw atynt, nid yw'r cwestiynau hyn wedi'u cynnwys yn yr adroddiad.***

© WJEC CBAC Ltd.

| | | |
|---|---|---|
| Gwybodaeth am ffiniau graddau | Ffiniau graddau yw'r nifer isaf o farciau y mae eu hangen i ennill pob gradd. Ar gyfer manylebau unedol, mynegir ffiniau graddau ar Raddfa Marciau Unffurf (GMU). Mae ffiniau graddau GMU yn aros yr un fath bob blwyddyn gan nad yw amrediad y canrannau marciau GMU a ddyrennir i radd benodol yn newid. Mae ffiniau graddau GMU yn cael eu cyhoeddi ar lefel gyffredinol y pwnc a'r uned.<br><br>Gyda manylebau llinol, dyfernir un radd am y pwnc, yn hytrach nag ar gyfer pob uned sy'n cyfrannu tuag at y radd gyffredinol. Cyhoeddir ffiniau graddau ar ddiwrnod y canlyniadau. | Ar gyfer manylebau unedol, cliciwch yma: Canlyniadau, Ffiniau Graddau a Gwasanaethau ar ôl y Canlyniadau (cbac.co.uk) |
| Dadansoddi Canlyniadau Arholiadau | Mae CBAC yn darparu gwybodaeth i ganolfannau arholiadau ar Porth CBAC. Cyfyngir y ddarpariaeth hon i staff mewn canolfannau yn unig. Y Swyddog Arholiadau yn y ganolfan sy'n rhoi'r caniatâd i'r staff yn y ganolfan gyrchu'r wefan hon. | Porth CBAC |
| Adnoddau Ystafell Ddosbarth | Manteisiwch ar ein hamrywiaeth eang o adnoddau ystafell ddosbarth RHAD AC AM DDIM, gan gynnwys deunyddiau dysgu cyfunol, adnoddau arweiniad i'r arholiad a threfnwyr gwybodaeth i gefnogi addysgu a dysgu. | https://adnoddau.cbac.co.uk/ |
| Banc o ddeunyddiau Dysgu Proffesiynol | Manteisiwch ar ein banc o ddeunyddiau Dysgu Proffesiynol o ddigwyddiadau blaenorol ar ein gwefan ddiogel a deunyddiau wedi'u recordio ymlaen llaw ychwanegol ar y wefan gyhoeddus. | Porth CBAC neu ar dudalen pwnc CBAC. |
| Arholi gyda CBAC. | Rydym bob amser yn chwilio am arholwyr neu gymedrolwyr newydd i'w recriwtio. Gall y cyfleoedd hyn eich helpu i feithrin dealltwriaeth werthfawr o'r broses asesu, gwella eich set sgiliau, gwella eich dealltwriaeth o'ch pwnc a llywio eich addysgu. | Arholi gyda ni \| CBAC |

© WJEC CBAC Ltd.

| **Cynnwys** | **Tudalen** |
|---|---|
| Crynodeb gweithredol | 5 |
| Uned 1: Hybu iechyd a llesiant drwy gydol camau bywyd | 6 |
| Eich cefnogi chi – manylion cyswllt a chysylltau defnyddiol | 9 |

© WJEC CBAC Ltd.

**Crynodeb Gweithredol**

UNED 1: HYBU IECHYD A LLESIANT DRWY GYDOL CAMAU BYWYD

**Trosolwg o'r Uned**

**Asesir yn Allanol: Uned 1**

Yn gyffredinol, roedd ymgeiswyr wedi'u paratoi'n dda ar gyfer yr asesiad allanol hwn. Yn y rhan fwyaf o achosion, roedd ymgeiswyr wedi rhoi cynnig ar bob cwestiwn, ac wedi dangos dealltwriaeth dda o'r berfau gorchmynnol. Roedd tystiolaeth hefyd o sillafu a gramadeg da, gyda llawysgrifen yn ddarllenadwy ar bapurau copi caled. Yn gyffredinol, dangosodd yr ymgeiswyr ddealltwriaeth dda o'r fanyleb.

Mewn rhai achosion, roedd tystiolaeth o ddiffyg manylion mewn ymatebion, yn enwedig ar gyfer y cwestiynau tariff uwch. Cyfyngodd rhai ymgeiswyr eu cyflawniad trwy ysgrifennu ymatebion syml heb ymateb bob amser i bob agwedd ar y cwestiwn.

| **Meysydd i'w gwella** | **Adnoddau ystafell ddosbarth** | **Disgrifiad byr o'r adnodd** |
|---|---|---|
| Ymarfer cwestiynau arholiad. | Adnoddau \| Dysgu Iechyd a Gofal Cymru | Adnoddau Arweiniad i'r Arholiad (cyngor ac awgrymiadau ymarferol) |
| Gwybodaeth a dealltwriaeth greiddiol. | Adnoddau \| Dysgu Iechyd a Gofal Cymru | Adnoddau Dysgu |

© WJEC CBAC Ltd.

**IECHYD A GOFAL CYMDEITHASOL: EGWYDDORION A CHYD-DESTUNAU**

**Lefel 2**

**Ionawr 2025**

**UNED 1: HYBU IECHYD A LLESIANT DRWY GYDOL CAMAU BYWYD**

**Trosolwg o'r Uned**

Roedd yr ymgeiswyr wedi'u paratoi'n dda ar gyfer yr arholiad hwn. Roedd y rhan fwyaf o ymgeiswyr wedi rhoi cynnig ar bob cwestiwn ac wedi dangos dealltwriaeth dda o'r berfau gorchmynnol.

Roedd sillafu a gramadeg yn elfen gref ar y cyfan, ac roedd llawysgrifen yn ddarllenadwy yn y rhan fwyaf o achosion. Roedd yr asesiad yn ymdrin â gwybodaeth, dealltwriaeth, cymhwyso a dadansoddiad ymgeiswyr ar draws pob maes o'r fanyleb, fel yr amlinellir yn y cynllun marcio. Yn gyffredinol, dangosodd yr ymgeiswyr ddealltwriaeth dda o'r fanyleb.

Fodd bynnag, mewn rhai achosion, nid oedd digon o fanylion i'w cael ar gyfer ymatebion, yn enwedig ar gyfer cwestiynau tariff uwch. Cyfyngodd rhai ymgeiswyr ar eu marciau trwy ddarparu atebion gor-syml yn hytrach na chymryd yr amser i ddarllen y cwestiwn yn ofalus ac ymateb i ofynion y cwestiynau yn fanwl.

**Sylwadau am gwestiynau/adrannau unigol**

**Cw.1** Enillodd llawer o ymgeiswyr farciau da ar y cwestiwn hwn, gyda rhai yn dangos dryswch ynghylch y gwahaniaeth rhwng budd-daliadau a chymhorthdal incwm.

**Cw.2** Rhaid i atebion gysylltu â hunangysyniad er mwyn rhoi credyd. Roedd ymatebion a oedd yn ennill marciau uwch yn cytuno y byddai incwm da yn gwella hunangysyniad, gan wneud yr unigolyn yn falch ohono'i hun, gan weld ei hun yn llwyddiannus. Roedd ymatebion rhai ymgeiswyr yn canolbwyntio ar sut y gallent wario mwy o arian, heb unrhyw gyswllt â hunangysyniad ac felly ni roddwyd unrhyw farciau. Ar y cyfan roedd ymgeiswyr yn nodi y gallai fod effeithiau cadarnhaol a negyddol i gyfryngau cymdeithasol, ond er mwyn ennill marciau roedd angen manylion yr effaith ar hunangysyniad.

**Cw.3** **(a)** Enillodd amrywiaeth o ymatebion gredyd, fel: Mae bronnau'n mynd yn fwy, fferau'n chwyddo, olion ehangu. Ni roddwyd marciau am golli gwallt nac am fod stumog yn mynd yn fwy gan nad yw'r rhain yn newidiadau i'r corff y gellir eu disgwyl yn ystod beichiogrwydd. Ni roddir marciau am iaith slang, fel *bol.*

**(b)** Roedd angen manteision / nodweddion cadarnhaol bwydo ar y fron ar gyfer y cwestiwn hwn. Roedd yr ymgeiswyr yn gallu amlinellu amrywiaeth o fanteision fel: maetholion naturiol a pherffaith gytbwys, darparu gwrthgyrff, bondio croen i groen, yn helpu i leihau'r risg o ganser i'r fam, rhad ac am ddim a'r tymheredd cywir, heb angen unrhyw waith paratoi.

**(c)** Rhoddwyd credyd am ymatebion a oedd yn rhoi manteision dosbarth ymlacio yn ystod beichiogrwydd. Roedd angen iechyd a llesiant y fam a'r baban i ennill marciau llawn.

© WJEC CBAC Ltd.

Roedd llawer o ymgeiswyr yn camddeall y term 'cyn-geni' ac yn ymateb gyda dosbarthiadau ôl-eni i famau a babanod ac nid oeddent yn gallu cyrraedd y band marciau canol/uwch.

**Cw.4** **(a)** Roedd y cwestiwn yn gofyn am enghreifftiau o anghydraddoldeb yn yr amgylchedd iechyd a gofal cymdeithasol, nid oedd ymatebion un gair fel 'hil' yn ateb y cwestiwn yn ddigonol i ennill credyd.

**(b)** Roedd y rhan fwyaf o ymgeiswyr yn gallu nodi dwy enghraifft o anghydraddoldeb yn yr amgylchedd iechyd a gofal cymdeithasol.

**(c)** Rhoddwyd credyd am bolisïau, hyfforddiant a deddfwriaeth. Fodd bynnag, roedd ymgeiswyr yn awyddus i roi ymatebion generig yn esbonio pam na ddylai anghydraddoldeb ddigwydd nad oedd yn ofyniad ar gyfer y cwestiwn.

**Cw.5** **(a)** Roedd diffiniad clir yn ennill marciau llawn: y ffordd y mae unigolyn yn meddwl amdano'i hun ac yn credu bod eraill yn meddwl amdano, gallai hyn fod yn gadarnhaol neu'n negyddol ac efallai na fydd yn wir.

**(b)** Roedd angen i ymatebion fod yn berthnasol i achosion posibl sy'n ymwneud â bachgen 7 oed, sy'n byw gyda theulu maeth i ennill marciau llawn ar gyfer y cwestiwn hwn.

**(c)** Roedd y cwestiwn hwn yn gofyn i ymgeiswyr esbonio ffyrdd y gallai'r teulu maeth gefnogi datblygiad hunangysyniad Jacob. Ar y cyfan, ymatebodd ymgeiswyr yn dda, gan gynnwys awgrymu caniatáu amser i Jacob siarad am yr hyn sy'n ei boeni a'i bryderon

**(ch)** Mae'r gefnogaeth y gall yr ysgol ei chynnig yn cynnwys: yr athro, y cynorthwyydd addysgu a'r Cydlynydd Anghenion Dysgu Ychwanegol. Efallai y bydd ysgolion yn cyfeirio at wasanaethau allanol fel CAMHS ac felly nid oeddent yn ennill credyd.

**Cw.6** **(a)** Roedd y rhan fwyaf o ymgeiswyr yn gallu nodi dwy agwedd ar ddatblygiad cymdeithasol yn ystod oedolaeth ddiweddarach. Ymhlith yr ymatebion sy'n deilwng o gredyd roedd effeithiau oedran ar berthnasoedd, fel: mwy o amser i dreulio gyda'r teulu oherwydd ymddeoliad, arwahanu, unigrwydd, gofalu am wyrion, colli partner/profedigaeth.

**(b)** Enillodd y rhan fwyaf o ymgeiswyr farciau uchel ar y cwestiwn hwn, gan wneud asesiad da o sut y gallai sefyllfa bresennol John ac Alex effeithio ar iechyd a llesiant y cwpl. Mae angen i ymatebion gynnwys iechyd a llesiant i gyrraedd y band marciau uchaf. Ehangodd yr atebion uchaf ar yr agweddau canlynol ar eu sefyllfa: Siarad Cymraeg, diagnosis canser, cyfrifoldebau gofalwyr, arwahanu, tlodi, straen, a diogelwch seicolegol.

**(c)** Roedd yn ofynnol rhoi esboniad manwl o ffyrdd y gall gwasanaethau iechyd a gofal cymdeithasol gefnogi'r iaith Gymraeg yn eu gwaith bob dydd i lwyddo yn y cwestiwn hwn. Roedd angen dulliau o gefnogi'r iaith Gymraeg, fel: dathlu'r defnydd o Gymraeg achlysurol ar gyfer y sawl nad ydynt yn siarad Cymraeg, cynnig hyfforddiant i staff. Rhoddwyd credyd am gyfeirio at y cynnig gweithredol / mwy na geiriau.

© WJEC CBAC Ltd.

**Cw.7 (a)** Nododd mwyafrif yr ymgeiswyr yn gywir y mathau o gam-drin mae Erika yn ei brofi yn ei gweithle.

**(b)** Roedd disgwyl i ymgeiswyr esbonio effaith cam-drin yn y gweithle ar iechyd a llesiant Erika. Roedd atebion a oedd yn ymdrin â'r ddau fath o gam-drin yr oedd Erika yn ei brofi, yn ennill marciau yn y band uchaf.

**Cw.8 (a)** Roedd y rhan fwyaf o ymgeiswyr yn gallu darparu amlinelliad manwl o ystyr y term pwysau gan gyfoedion.

**(b)** Er mwyn ennill marciau llawn, mae angen i ymatebion gysylltu â cham bywyd llencyndod. Ychwanegodd rhai ymgeiswyr ddeddfwriaeth berthnasol yn eu hymatebion, mae hyn yn arfer da ar yr amod eu bod yn enwi'r ddeddfwriaeth yn gywir.

**(c)** Mae rôl, pwrpas a heriau mentrau ac ymgyrchoedd yn gwestiwn cyfarwydd i ymgeiswyr, a dylid annog ymgeiswyr i ymarfer ymdrin â'r tair elfen yn unol â gofynion y cwestiwn wrth adolygu a pharatoi ar gyfer eu harholiadau.

Roedd yr ymgeiswyr yn cynnig amrywiaeth o bwyntiau trafod perthnasol a rhoddwyd credyd iddynt, fel:
- Rôl: codi ymwybyddiaeth
- Pwrpas: lleihau nifer yr unigolion sy'n defnyddio fêps/sy'n ysmygu, annog dewisiadau a ffyrdd o fyw iach
- Heriau: pwysau gan gyfoedion, cynhyrchion sydd wedi'u cynllunio i apelio at blant, terfyn oedran cyfreithiol i'w defnyddio/prynu.

© WJEC CBAC Ltd.

## Eich cefnogi chi

### Manylion cyswllt a chysylltau defnyddiol

Mae ein tîm pwnc cyfeillgar wrth law i'ch cefnogi rhwng 8.30 a.m. a 5.00 p.m. o ddydd Llun i ddydd Gwener.
Ffôn: 029 2240 4264
E-bost: igceach@cbac.co.uk
Tudalen pwnc y cymhwyster: https://www.dysguiechydagofal.cymru/cysylltwch-a-ni/

Gweler manylion cyswllt defnyddiol eraill yma: Cysylltu â ni | Dysgu Iechyd a Gofal Cymru

### Hyfforddiant DPP / Dysgu Proffesiynol

Manteisiwch ar ein cyrsiau DPP/DP ar-lein rhad ac am ddim poblogaidd i gael adborth ar arholiadau ac i ofyn cwestiynau i'n tîm pwnc, a dewch i un o'n digwyddiadau wyneb yn wyneb, sy'n canolbwyntio ar wella addysgu a dysgu, darparu syniadau ar gyfer yr ystafell ddosbarth a datblygu dealltwriaeth o farcio ac asesu.

Mae manylion ynghylch ein holl gyrsiau i'w cael yma: Hyfforddiant a Digwyddiadau i Ddod | Dysgu Iechyd a Gofal Cymru https://www.cbac.co.uk/home/dysgu-proffesiynol/

### Cymwysterau CBAC

Fel corff dyfarnu mwyaf Cymru, mae CBAC yn cefnogi ei gymuned addysg drwy ddarparu cymwysterau dwyieithog ac asesiadau dibynadwy a chefnogaeth arbenigol i ysgolion a cholegau ar draws y wlad. Mae hyn yn caniatáu i'n dysgwyr gyrraedd eu potensial yn llawn.

Gyda thros 70 mlynedd o brofiad, rydym hefyd ymhlith y prif ddarparwyr yn Lloegr a Gogledd Iwerddon.

© WJEC CBAC Ltd.

CBAC
245 Rhodfa'r Gorllewin
Caerdydd CF5 2YX
Rhif Ffôn 029 2026 5000
Ffacs 029 2057 5994
E-bost: arholiadau@cbac.co.uk
gwefan: www.cbac.co.uk

© WJEC CBAC Ltd.